buom ni yn mwynhau ein brech-
dannau, a chresion a sudd oren a
choffi ac yr oedd yn lle del-
frydol yn yr haul. Oddi yna
i Groes Cwrlwys i ganolfan HTV
Cymru a chael croeso cynnes gan
Mr David Meredith, a'i
ysgrifenyddes. Cawsom ein tywys
o gwmpas i weld y gwahanol
ystafelloedd-gwisgo coluro a'r
ddwy stiwdio. Diddorol iawn
oedd cael eistedd fel rhan o
gynulleidfa yn y stiwdio, a
deall mai oddi yno roedd
rhaglenni fel "Cyfle" yn cael eu
darlledu bob nos Sadwrn.
Teimlwn yn ddiolchgar iawn am y
fath groeso i ni gyd yng
Nghanolfan HTV.
I Gaerdydd wedyn i'r Amgueddfa
Genedlaethol i weld y casgliad
o'r Dinosoriaid Tsineaidd
rhyfeddol iawn. Yr oeddynt
wedi eu trefnu yn rhyfedd ac
atyniadol ac yn gwneud i ni synnu
a rhyfeddu. Roedd hon yn
olygfa gwerth ei gweld, ac nid
anhofiwn amdani chwaith. Dych-
welwyd adref ar 'hyd ffordd arall'
ac aros am sglodion yn Rhaeadr
cyn dychwelyd i ardal Trefeurig.